# STRATEGAETH **IAITH GYMRAEG** PCYDDS

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

pcydds.ac.uk

# CYFLWYNIAD



## Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno Strategaeth Iaith Gymraeg PCYDDS 2026-2030, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad cadarn i sicrhau bod y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn ganolog i'w phobl, ei lle a'i phwrpas.

Mae'r Gymraeg yn rhan ddiffiniol o'n treftadaeth ddiwylliannol, ein hunaniaeth a'n dyfodol. Mae'n cyfoethogi ein cymuned, yn ehangu ein safbwyntiau, ac yn ein cysylltu'n ddwfn â'r bobl a'r lleoedd a wasanaethir gennym. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y cryfderau hynny, gan amlinellu llwybr clir ar gyfer ehangu cyfleoedd i ddysgu, defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws holl feysydd gweithgarwch y Brifysgol - o addysgu ac ymchwil i brofiad myfyrwyr, gwasanaethau proffesiynol, ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd ag ymrwymiad strategol Medr, Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru i'r Gymraeg ac i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.  Mae hefyd yn cyd-fynd â'n Cynllun Strategol (2025-30) ac wedi'i seilio ar uchelgais y cynllun hwnnw a'n gwerthoedd.

Ein gweledigaeth yw bod yn brifysgol ddwyieithog o fewn y sector trydyddol lle mae'r Gymraeg yn weladwy, yn fyw ac yn cael ei chefnogi'n llawn; lle mae siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu hannog; a lle mae addysg ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg yn parhau i dyfu o ran ansawdd, graddfa ac effaith. Mae cyflawni hyn yn gofyn am ymdrech ar y cyd: ymroddiad ein staff, brwdfrydedd ein myfyrwyr, a phartneriaeth ystyrlon gyda chyrff cenedlaethol, ein cymunedau lleol, a'r sector cyhoeddus yn ehangach.

Nid lle dysgu yn unig yw PCYDDS. Mae hefyd yn lle sy'n annog ac yn cofleidio cynhwysiant fel y gallwn ni i gyd ymfalchïo yn rôl y Brifysgol fel darparwr addysg cyfrwng Cymraeg blaenllaw yng Nghymru.

**Yr Athro Elwen Evans CB, Is-Ganghellor.**



## Cenhadaeth a Gweledigaeth

Ein cenhadaeth yw hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan fyw, ffyniannus ac annatod o'n cymuned academaidd. Ymrwymwn i feithrin amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn weladwy, yn cael ei gwerthfawrogi a'i defnyddio'n weithredol ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol. Trwy arwain, cydweithio ac arloesi, ein nod yw ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr, staff a phartneriaid dysgu i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â defnyddio a dathlu'r Gymraeg.




## Ein Gweledigaeth

Byddwn yn parhau i sicrhau bod y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan greiddiol o weledigaeth y Brifysgol. Byddwn yn cael ein cydnabod fel darparwr blaenllaw o addysg, hyfforddiant a gwasanaethau i fyfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach. Byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar bob lefel, gan alluogi dysgwyr o bob oed a chefndir i gyflawni eu potensial. Rydym yn falch o'n treftadaeth a'n traddodiad ac, mewn cydweithrediad â phartneriaid, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gyfrannu'n llawn at nod Llywodraeth Cymru o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



# CYD-DESTUN STRATEGOL

## Mae gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ymrwymiad hir a sefydledig i addysg cyfrwng Cymraeg ac i hyrwyddo'r Gymraeg.

Sefydlwyd Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol ym mis Tachwedd 2021, gyda chyfrifoldeb am ddatblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y Brifysgol yn strategol. Mae cylch gwaith y Ganolfan hefyd yn cynnwys pob agwedd ar hyfforddiant Cymraeg i staff a myfyrwyr. Yn yr un modd, darperir hyfforddiant Cymraeg proffesiynol gan y Ganolfan i sefydliadau allanol drwy gytundebau masnachol neu grantiau drwy *Rhagoriaith.* Mae cydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg hefyd yn perthyn i'r Ganolfan ynghyd â *Peniarth,* cangen gyhoeddi fasnachol y Brifysgol.

Mae'r Gymraeg a'r holl faterion sy'n gysylltiedig â hi yn gyfrifoldeb y Brifysgol gyfan; bydd darpariaeth academaidd ac ymchwil yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r Athrofeydd, Gwasanaethau Cymorth Proffesiynol, Arloesi ac Ymgysylltu, yr Uned Gyfieithu a'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd (CAWCS).

Mae grŵp PCYDDS, sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, mewn sefyllfa unigryw i gynnig llwybrau trydyddol integredig a llwybrau dilyniant cyfrwng Cymraeg clir sy'n rhychwantu ystod eang o feysydd pwnc.

Fel sefydliad cenedlaethol sydd wedi'i wreiddio yn nhreftadaeth ieithyddol a diwylliannol Cymru, mae'r Brifysgol yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Drwy ei champysau, ei phartneriaethau a'i chenhadaeth ddinesig, mae PCYDDS yn cyfrannu at welededd, bywiogrwydd a defnydd bob dydd o'r Gymraeg mewn addysg, yn y gweithle a bywyd cyhoeddus.

Mae'r Brifysgol yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar draws y llywodraeth, awdurdodau lleol, diwydiant, y sector gwirfoddol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo dwyieithrwydd, i gefnogi twf cymunedau Cymraeg eu hiaith, ac i helpu adeiladu gweithlu dwyieithog medrus sy'n hanfodol i ddyfodol Cymru. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn sylfaenol i hunaniaeth y Brifysgol ac i'w chyfraniad at lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y genedl.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar genhadaeth y Brifysgol i Drawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau, ac mae'n cyd-fynd â'r ymrwymiadau a nodir yng Nghynllun Strategol PCYDDS 2025–2030, yn enwedig y bumed Flaenoriaeth Strategol:

> *Cefnogi, ymgorffori a chryfhau cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ein darpariaeth, ymgysylltiad ac arfer ar gyfer dysgwyr.*

**sy'n cynnwys yr uchelgais i:**

- ehangu cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg
- cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ymgysylltu â dysgwyr ac arfer academaidd
- ymgorffori'r iaith o fewn diwylliant ac enw da sefydliadol y Brifysgol.

## Mae'r mesurau llwyddiant a nodir yng Nghynllun Strategol PCYDDS yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **BS5.1** | Cynnydd yn nifer y staff, myfyrwyr ac aelodau o'r gymuned ehangach sy'n ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg ffurfiol yn PCYDDS |
| **BS5.2** | Nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu recriwtio ar raglenni astudio penodedig |
| **BS5.3** | Canran/cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n ymgymryd â 5 neu fwy o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg |
| **BS5.4** | Canran/cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n ymgymryd â 40 neu fwy o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg |
| **BS5.5** | Cynnydd yng nghanran y staff sydd â Chymraeg ysgrifenedig a llafar mewn rolau darpariaeth academaidd sydd wedi'u hadnabod fel meysydd blaenoriaeth |
| **BS5.6** | Cynnydd yng nghanran y staff sydd â Chymraeg ysgrifenedig a llafar mewn rolau gwasanaeth proffesiynol sydd wedi'u hadnabod fel meysydd blaenoriaeth |

Mae gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn gosod disgwyliad clir ar y sector addysg drydyddol i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ac i gynyddu cyfleoedd i ddysgwyr astudio, gweithio a byw drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, mae gan Medr nod strategol i:

> *Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.*

Mae'r galw am sgiliau cyfrwng Cymraeg ar gynnydd ar draws gwasanaethau cyhoeddus, addysg, iechyd, sectorau diwylliannol a diwydiant yng Nghymru. Mae cyflogwyr yn disgwyl i raddedigion ddangos hyder ieithyddol a chymhwysedd diwylliannol, ac mae darparwyr trydyddol yn chwarae rôl hanfodol wrth ddatblygu gweithlu dwyieithog y dyfodol.

O fewn y dirwedd ehangach hon, mae gan PCYDDS gyfle i gyfrannu'n ystyrlon at y nodau cenedlaethol hyn, a'r cyfle i wneud hynny trwy ei hôl troed rhanbarthol, ei strwythur trydyddol, ei threftadaeth, a'i chysylltiadau cymunedol dwfn.

O ganlyniad, mae Strategaeth y Gymraeg wedi'i rhannu'n dri maes allweddol:

**Dysgu ac Addysgu:**
Byddwn yn parhau i fod yn brif ddarparwr addysg cyfrwng Cymraeg.

**Hyrwyddo, Galluogi ac Ymgorffori:**
Byddwn yn parhau i hyrwyddo a gwella defnydd o'r Gymraeg.

**Ymchwil ac Arloesi:**
Byddwn yn parhau i sicrhau bod cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu at weithgareddau ymchwil, menter ac arloesi PCYDDS.

Yn sgil y strategaeth hon mae modd i PCYDDS wneud cyfraniad cryf, ystyrlon a mesuradwy at nodau Llywodraeth Cymru, at anghenion economaidd rhanbarthol, ac at uchelgais strategol y Brifysgol ei hun. Mae'n adlewyrchu ein treftadaeth, yn cofleidio ein rôl fel darparwr trydyddol, ac yn sefydlu llwybr clir ar gyfer twf, cyfoethogi diwylliannol a hyder ieithyddol ar draws y sefydliad.

# 1 Dysgu ac Addysgu

**Byddwn yn parhau i fod yn brif ddarparwr addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru a thu hwnt ac yn sicrhau bod ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn diwallu anghenion ein dysgwyr ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Byddwn hefyd yn sicrhau aliniad â gweledigaeth a chynllun cenedlaethol Medr ar gyfer hyrwyddo a darparu addysg cyfrwng Cymraeg.**

Fel un o'r prif ddarparwyr addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r strategaeth hon yn datgan yn glir y bydd hynny'n parhau drwy fuddsoddi a datblygu darpariaeth mewn meysydd allweddol. Byddwn yn sicrhau y bydd:

i. meysydd blaenoriaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu nodi'n ffurfiol gan ddefnyddio Grŵp Cynllunio'r Cwricwlwm fel prif sbardun

ii. cynnwys cyfrwng Cymraeg a chynnwys iaith Gymraeg yn cael eu diffinio'n glir o fewn y ddarpariaeth

iii. cynnydd blynyddol mewn data cyfrwng Cymraeg 5 a 40 credyd ynghyd â diffiniad ffurfiol o gynnwys cyfrwng Cymraeg o fewn y ddarpariaeth

iv. yr Athrofeydd yn parhau i weithredu Cynlluniau Gweithredu Cyfrwng Cymraeg ac yn cael eu gyrru gan y data sydd ar gael drwy'r Dangosfwrdd Myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

v. ymgysylltu gweithredol â Choleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion i gynyddu cyfleoedd cydweithio a chynllunio llwybrau dilyniant a blaenoriaethau strategol

vi. darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i marchnata'n strategol drwy ymgyrchoedd pwnc penodol

vii. cynnydd yn nifer y llwybrau cyfrwng Cymraeg, a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n gweithredu cofrestru awtomatig

viii. y Brifysgol yn parhau i ymgymryd â rôl flaenllaw yn y sector wrth ddarparu hyfforddiant Cymraeg i'r gweithlu addysg yng Nghymru drwy'r Cynllun Sabothol a chyfleoedd masnachol eraill

ix. cynnydd yn y broses o hyrwyddo ymwybyddiaeth myfyrwyr o werth cyflogadwyedd cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg yn unol â Strategaeth Cyflogadwyedd y Brifysgol

x. cefnogaeth ragweithiol barhaus drwy Gangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflawni a monitro grantiau'r Coleg ochr yn ochr â rhaglen fywiog o weithgareddau a fydd yn cyfoethogi'r profiad o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

Yn unol â Chynllun Strategol y Brifysgol, fel y nodwyd yn flaenorol, bydd llwyddiant yr uchod yn cael ei fesur trwy Flaenoriaethau Strategol 2, 3 a 4.



# 2 Hyrwyddo, Annog a Hwyluso

**Byddwn yn parhau i hyrwyddo a gwella'r defnydd o'r Gymraeg drwy gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg. Golyga hyn ddarparu ystod gynhwysfawr o hyfforddiant Cymraeg gydag ymrwymiad i gynyddu'n naturiol ganran y staff sydd â Chymraeg ysgrifenedig a llafar mewn rolau penodedig.**

Bydd ein gweithrediad o Safonau'r Gymraeg yn cael ei ategu gan y canlynol:

i. cyhoeddi Adroddiad Cydymffurfiaeth Blynyddol ar ein gwefan

ii. cynyddu a chyfoethogi proses hunanasesu'r Unedau Proffesiynol ac Athrofeydd

iii. datblygu a gweithredu cynllun gweithlu ar draws yr Athrofeydd

iv. sicrhau bod pob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg yn deall bod ganddynt fynediad at wasanaethau cymorth myfyrwyr yn Gymraeg, gan gynnwys yr Hwb Myfyrwyr, Desg Gymorth TG a gwasanaethau arbenigol fel Cymorth Dysgu, Cyngor Ariannol a Llesiant

v. gwella rôl systemau a llwyfannau digidol wrth gefnogi profiad dwyieithog cyson, o ansawdd uchel ar draws gwasanaethau myfyrwyr a staff

vi. monitro a sicrhau bod AI a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg - fel yr amlinellir yn Fframwaith AI y Brifysgol - yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd fel cyfieithu, creu cynnwys, a chymorth myfyrwyr

vii. datblygu, mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, gynllun blynyddol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol a'r profiad myfyriwr sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

Amlygir tystiolaeth o'n hymrwymiad i ddarparu a hyrwyddo hyfforddiant iaith Gymraeg trwy'r canlynol:

viii. darparu cyfres cynyddol gynhwysfawr o gyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg wedi'i chymeradwyo a'i chefnogi gan reolwyr llinell

ix. darparu cyfres o gyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â'u hastudiaethau academaidd a chyfeirio myfyrwyr at y cyfleoedd hynny

x. darparu a chynyddu'r llwybrau iaith Gymraeg a nodwyd yn ffurfiol o fewn y ddarpariaeth fel rhai sy'n allweddol i Gymru 2050.

Yn ogystal, byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i gynyddu'n naturiol nifer y staff a chanddynt sgiliau mewn:

xi. meysydd blaenoriaeth academydd dynodedig

xii. rolau gwasanaethau proffesiynol dynodedig.

Byddwn hefyd yn:

xiii. llunio canllawiau ffurfiol ar ddiffinio lefelau hyfedredd staff presennol a staff y dyfodol gan ddilyn canllawiau LIC yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd (CEFR) ynghyd ag arweiniad ar recriwtio i swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.

Yn unol â Chynllun Strategol y Brifysgol, fel y nodwyd yn flaenorol, bydd llwyddiant yr uchod yn cael ei fesur trwy Flaenoriaethau Strategol 1, 5 a 6.





# 3 Ymchwil ac Arloesi

**Byddwn yn parhau i gyfrannu at weithgarwch ysgolheigaidd mewn meysydd dynodedig ochr yn ochr â datblygu mentrau fasnachol a chynhyrchu incwm gan sicrhau bod cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol ac ar gael, ochr yn ochr â chyfleoedd sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ei hun.**

i. Mae Pwyllgor Ymchwil y Brifysgol yn ymwneud yn weithredol ag ymchwil cyfrwng Cymraeg ac yn sefydlu is-bwyllgor dynodedig ar gyfer ymchwilwyr ac ymchwilwyr gyrfa gynnar sy'n awyddus i ymgymryd ag ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg .

ii. Bydd CAWCS yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at ein gweithgarwch cyfrwng Cymraeg gan ddenu incwm sylweddol.

iii. Datblygu a chynyddu'r nifer a nodwyd o unigolion sy'n gallu sicrhau ansawdd rhagorol a chysondeb wrth oruchwylio myfyrwyr doethurol cyfrwng Cymraeg.

iv. Cyflwyno ceisiadau am brosiectau a ariennir gyda phwyslais penodol ar y Gymraeg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr â cheisiadau am ysgoloriaethau PhD o ffynonellau fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

v. Datblygu prosiectau a mentrau sy'n ymwneud â nodau cenhadaeth ddinesig y Brifysgol drwy hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru a thu hwnt (prosiectau a nodir yn Strategaeth CAWCS).

vi. Bydd *Rhagoriaith* yn parhau yn un o arweinwyr maes hyfforddiant masnachol i'r gweithlu addysg yng Nghymru, gan ddenu incwm sylweddol a chynyddu'r rhaglenni a gynigir.

vii. Bydd *Peniarth* yn parhau i ddenu incwm fel un o brif ddarparwyr adnoddau addysg yng Nghymru ac yn adeiladu ymhellach ar nifer y prosiectau sydd wedi'u hennill ac ar waith ar hyn o bryd.

viii. Sicrhau mwy o ymwybyddiaeth ac adeiladu ar rôl yr Egin fel cyfrannwr at weithgareddau academaidd masnachol ac anfasnachol eu natur.

Yn unol â Chynllun Strategol y Brifysgol, fel y nodwyd yn flaenorol, bydd llwyddiant yr uchod yn cael ei fesur trwy Flaenoriaeth Strategol 1.



# CYNLLUNIO STRATEGOL

**Mae strwythur llywodraethiant cadarn ar waith ar gyfer gweithredu a monitro'r strategaeth hon. Ar lefel pwyllgorau sefydliadol, ail-gyfansoddwyd Pwyllgor y Gymraeg fel pwyllgor o'r Senedd ym mis Mehefin 2022.**

Mae'n goruchwylio Cangen Coleg Cymraeg, Is-bwyllgorau'r Iaith Gymraeg yr Athrofeydd a Rhwydwaith Unedau Proffesiynol y Gymraeg, a bydd yn derbyn adroddiadau ym mhob cyfarfod mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed.

Caiff ein blaenoriaethau a'n mesurau llwyddiant o ran Strategaeth y Gymraeg eu llywio gan ein proses gynllunio flynyddol a'u cyflawni drwy ein his-strategaethau a'n cynlluniau sefydliadol.Rydym yn monitro perfformiad y sefydliad yn barhaus drwy ein cyflwyniadau Gwybodaeth Reoli, fframwaith Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac adroddiadau i Bwyllgor y Gymraeg, sef un o bwyllgorau sefydlog y Senedd. Mae'r cyfrifoldeb dros oruchwylio gweithrediad y Strategaeth yn perthyn i'r Pwyllgor Llywodraethiant a Diwylliant ar ran Cyngor y Brifysgol.